

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD Y RHAGLEN AILSEFYDLU (UCGC)

Mae geiriad y ddogfen hon yn adlewyrchu gofynion Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) sydd mewn grym o 25ain Mai 2018.

Maes Gwasanaeth CBST:	Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus
Maes gwaith:	Cydraddoldebau, Cydlynïad a Diogelwch Cymunedol
Manylion Cyswllt	Christopher.hunt@torfaen.gov.uk
Enw Hysbysiad Preifatrwydd:	Rhaglen Ailsefydlu (UCGC)

Rheolwr Data:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
d/o Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

Swyddog Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth:

Susan Bullock
01633 647467
E-bost: dpa@torfaen.gov.uk

1) Ydyn ni wedi cael eich data personol, yn uniongyrchol oddi wrthyd chi?

Na. Cafodd ei rannu gyda'r Cyngor.

Fel rhan o raglen ailsefydlu'r Swyddfa Gartref, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (fel yr awdurdod lleol lletyol) yn derbyn gwybodaeth oddi wrth y Swyddfa Gartref ym mhob achos. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu gan Uwch Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoduriaid ar adeg cofrestru ar gyfer ailsefydlu.

2) Pa wybodaeth ydy'r Cyngor yn ei chasglu amdanoch chi?

Mae'r Cyngor yn casglu ac yn prosesu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch chi. Mae hyn yn cynnwys;

Enw
Dyddiad Geni
Cyfeiriad
Rhyw

Oed
Ethnigrwydd
Crefydd
Cefndir Personol
Meddygol

Gall bydd y Cyngor yn casglu'r wybodaeth trwy drydydd parti

Rydym yn storio gwybodaeth mewn cronfa ddata TG diogel a ddarperir gan Civica, sydd â thystysgrif ISO 27001.

3) Pam fod y Cyngor yn prosesu eich data personol?

Yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasgau er budd cyhoeddus neu weithredu ar sail awdurdod sydd gan y Cyngor

Er enghraifft, mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i roi'r lefel briodol o gefnogaeth i bob teulu sy'n cael eu hailsefydlu yn y fwrdeistref. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddatblygu cynlluniau cefnogaeth cyfannol ar ôl cyrraedd sy'n cynnwys gwasanaethau fel iechyd ac addysg a'r darparwr cefnogaeth a gomisiynwyd.

4) Categoriâu Arbennig o ddata personol:

Mae hyn yn cynnwys Enw, Dyddiad Geni, Rhyw, Oed, Ethnigrwydd, Crefydd

Gallwn brosesu'r categori data yma oherwydd:

Rhoddodd y sawl sy'n destun y data ganiatâd penodol

Ar adeg cofrestru bydd caniatâd wedi ei roi gan bob prif ceisydd (pennaeth y teulu) i Uwch Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid. Mae'r caniatâd hwn yn cynnwys rhannu adroddiadau meddygol (gyda gweithwyr proffesiynol priodol mewn iechyd) a rhannu'r data uchod gyda'r awdurdod lletyol.

5) Pwy sydd yn cael defnyddio'ch data?

Gall bydd eich gwybodaeth (yn rhannol) yn cael ei rhannu'n fewnol â phersonau allweddol fel addysg, gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid mewn diogelwch cymunedol.

Mae'r Cyngor yn rhannu eich data gyda thrydydd partiön gan gynnwys darparwyr y gwasanaeth a gomisiynwyd i gyflenwi agweddau ar gefnogaeth i ffoaduriaid ar ôl ailsefydlu, mae'r rhain yn cynnwys y gweithiwr achos, darparwr cefnogaeth a darparwr gwersi Saesneg yn y cartref.

Ydy'r Data'n cael ei drosglwyddo i'r tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd?

Nac Ydy

6) Sut mae'r Cyngor yn diogelu data?

Mae gan y Cyngor bolisiâu mewnol mewn grym i sicrhau nad yw'r data y mae'n ei brosesu yn cael ei golli, ei ddinistrio'n anfwriadol, yn cael ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu. Hefyd nid yw cyflogeion yn defnyddio'r data ac eithrio wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Pan fo'r Cyngor yn cyflogi trydydd partïon i brosesu data personol ar ei ran, maen nhw'n gwneud hynny ar sail cyfarwyddiadau ysgrifenedig. Mae gan y trydydd partïon yma ddyletswydd cyfrinachedd hefyd ac mae'n rhaid iddyn nhw weithredu mesurau priodol i sicrhau diogelwch data.

7) Am ba mor hir mae'r Cyngor yn cadw eich data?

Bydd y Cyngor yn cadw eich data personol dim ond am gyhyd ag sydd yn angenrheidiol (hyd at 5 mlynedd ar ôl ailsefydlu) a bydd yn dilyn safonau trefniadol ac Awdurdod Lleol yn y maes hwn.

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth mewn ffordd sy'n gyson ag amserlenni cadw Awdurdod Lleol

8) Ydyn ni'n gwneud penderfyniadau awtomataidd/yn proffilio gyda'ch data?

Nac Ydym

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau y gallwch eu harfer:

- gweld a chael copi o'ch data ar gais
- mynnu bod y Cyngor yn newid data anghywir neu anghyflawn
- mewn rhai amgylchiadau penodol gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu neu beidio â phrosesu eich data, er enghraifft os nad yw'r data bellach yn angenrheidiol at ddibenion prosesu
- cael gwybod y cyfnod amser y bydd y data'n cael ei gadw
- yr hawl i hygludedd data
- yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg
- yr hawl i gyflwyno cwyn i awdurdod goruchwyllo (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth)
- canlyniadau eich bod yn methu darparu data i'r Cyngor
- bodolaeth penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio a goblygiadau hyn i chi.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau yma, cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Chris Hunt (Cydlunydd Cydlyniad Cymunedol)

Cydraddoldebau, Cydlyniad a Diogelwch Cymunedol, UCGC

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

E-bost: christopher.hunt@torfaen.gov.uk

Ffôn: (01495) 766097 Symudol:07961558470

RHEOLAETH DOGFENNAU

Teitl:	Hysbysiad Preifatrwydd y Rhaglen Ailsefydlu		
Perchennog y Ddogfen:	Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBGR)		
Awdur y Ddogfen:			
Cyfeirnod:	IGFM005	Cyfnod Cadw:	Tan yr Adolygiad nesaf
Dosbarthiad y Ddogfen:	Swydddogol	Lleoliad	SWOOP
Fersiwn / Statws	Byw	Cymeradwywyd gan	SIRO
Dyddiad Cyhoeddiad Presennol	Mai 2018	Dyddiad yr Adolygiad nesaf	Mai 2019

HANES ADOLYGU

Dyddiad Cyhoeddi	Fersiwn / Statws	Rheswm dros Newid	Newidiwyd gan
Mai 2018	1.0 Byw	Crëwyd y ffurflen er mwyn sicrhau Cydymffurfiaid â RhDDC	Sue Bullock